De-ddwyrain Cymru
Cartrefi i Gyn-filwyr Caerdydd

Rhaglen tai â chymorth ar gyfer cyn-weithwyr y Lluoedd Arfog sy'n ddigartref ac sydd ag ystod o anghenion cymorth yw Cartrefi i Gyn-filwyr Cymru.

Cenhadaeth
Rhoi llety â chymorth i Gyn-filwyr ag anghenion cymorth isel i uchel mewn amgylchedd ymatebol a diogel gan eu galluogi i newid eu bywydau a datblygu fel y gallant symud ymlaen i fyw'n annibynnol yn llwyddiannus.

Lleoliad
Mae'r prosiect yn cynnwys dau dŷ yng Nghaerdydd, sy'n cynnig lle ar gyfer deg o Gyn-filwyr. Mae'r tai wedi'u lleoli o fewn pellter cerdded at gyfleusterau lleol a gyda mynediad hawdd at ganol y ddinas lle mae cyfleoedd chwaraeon/hamdden a hyfforddiant ar gael drwy ganolfannau addysg oedolion neu golegau lleol.

Staff
Caiff y cartrefi eu staffio 75 awr yr wythnos gan ddau aelod o staff gyda staff ar y safle rhwng 9am a 5pm. Rhwng 5pm a 9am mae system dyletswydd ar alwad ar waith. Mae Alabaré wedi bod yn Fuddsoddwr mewn Pobl ers 2001.

Nodau
Galluogi preswylwyr i feithrin y sgiliau a'r hyder i symud ymlaen i lety annibynnol cynaliadwy.
Galluogi preswylwyr i feithrin cydberthnasau adeiladol a chadarnhaol o fewn y gymuned ehangach.
Annog ymwybyddiaeth o gyfrifoldeb personol o ran cyllideb a diogelwch.
Galluogi preswylwyr i fwynhau, nodi a mynd ati i wireddu eu dyheadau drwy hyfforddiant, addysg, cyflogaeth a hobïau gan wella eu hyder a'u hunan-barch.
Cynyddu ymwybyddiaeth o les corfforol a meddyliol a sicrhau y gall defnyddwyr y gwasanaeth ddefnyddio gwasanaethau iechyd a lles meddyliol priodol.

Cymhwysedd ac atgyfeiriadau
Caiff atgyfeiriadau eu derbyn gan asiantaethau cymorth lleol, elusennau eraill, y Lleng Brydeinig Frenhinol, carchardai lleol, ac rydym hefyd yn derbyn hunanatgyfeiriadau. Mae'n rhaid i bob preswylydd fod wedi gwasanaethu gyda Lluoedd Arfog Prydain. Mae'n rhaid iddynt fod yn ddigartref neu mewn llety anniogel; bod ganddynt anghenion cymorth; eu bod yn fodlon manteisio ar y cymorth sydd ar gael; ac nad ydynt yn peri risg na all y gwasanaeth ei rheoli.

Cynlluniau Cymorth Personol
Penodir gweithiwr allweddol i bob preswylydd a, gyda'i gilydd, byddant yn cytuno ar gynllun cymorth sy'n seiliedig ar asesiad trylwyr o'u hanghenion unigol. Mae'r staff yn gweithio gyda phreswylwyr ac asiantaethau priodol: gan gynnwys gwasanaethau cwnsela, asiantaethau cyffuriau ac alcohol a grwpiau cymorth, Cyngor ar Bopeth a gwasanaethau'r GIG. Darperir cymorth adsefydlu hefyd ac mae Cymorth Allgymorth ar gael pan fydd ei angen ar yr unigolyn.

Hyd yr arhosiad
Fel arfer bydd unigolion yn aros rhwng chwech ac wyth mis; ni ellir aros fwy na blwyddyn.

Cyfleusterau
Mae gan y tai ystafelloedd gwely sengl. Mae'r cyfleusterau a rennir yn cynnwys lolfa i breswylwyr gyda theledu, bocs digidol a DVDs, ystafell fwyta a chegin.

Hyfforddiant
Sgiliau cyllidebu, bwyta'n iach, sgiliau siopa, sgiliau bywyd ar gyfer byw'n annibynnol a meithrin hyder.

Polisïau
Cytundeb trwydded i'w lofnodi ar ôl cael eu derbyn.
Ni chaniateir alcohol na chyffuriau yn y tŷ.
Ni chaniateir ysmygu yn y tŷ. Mae man ysmygu yn yr ardd gefn.
Ni chaniateir anifeiliaid anwes.
Mynediad 24 awr i breswylwyr gan fod gan bob preswylydd ei allwedd ei hun.
Caniateir ymwelwyr hyd at 10pm.
Mae gweithdrefn Cwynion/Aflonyddu/Apêl ar waith ar gyfer preswylwyr.

Cyllid ac adolygiadau allanol
Cefnogir y prosiect gan gyllid o Gronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog (Libor), a llawer o unigolion hael. Mae preswylwyr yn talu ffi trwydded (a gwmpesir yn aml gan fudd-daliadau tai er bod angen i bob preswylydd dalu tâl gwasanaeth).

Cyfle cyfartal a chyfrinachedd
Mae Alabaré yn credu mewn cyfle cyfartal ac ni fydd yn gwahaniaethu yn erbyn defnyddwyr gwasanaeth ar unrhyw sail. Ystyrir bod unrhyw wybodaeth am ddefnyddwyr gwasanaethau yn gyfrinachol a chaiff ei diogelu.

Rhagor o wybodaeth
Cysylltwch â John Martin Jones – Rheolwr Gofal a Chymorth ar 07721 489248 neu e-bostiwch j.martin-jones@alabare.co.uk

Arweiniad yn unig yw'r wybodaeth yn y ddogfen hon a gall newid heb unrhyw rybudd ymlaen llaw. Ffoniwch 01722 322882 i gael manylion diweddaraf y prosiect neu os hoffech gael y wybodaeth hon mewn fformat neu iaith arall.
Diweddarwyd ddiwethaf ym mis Mehefin 2015.

Alabaré Christian Care & Support Cartrefi I Gyn-filwyr

Alabaré Christian Care & Support
Riverside House, 2 Watt Road, Salisbury SP2 7UD Tel. 01722 322882
enquiries@alabare.co.uk **www.alabare.co.uk**
Registered Charity No. 1006504